

Datganiad ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a NAHT Cymru

Yn dilyn trafodaethau adeiladol rhwng y partïon ar 30 Medi a 5 Hydref 2026, mae Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a NAHT Cymru wedi cytuno i ddechrau cyfnod o drafodaethau dwys ynghylch y materion sydd wedi arwain at anghydfod presennol NAHT Cymru.

Mae'r partïon yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau datrysiad amserol ac ystyrlon i bryderon sy'n ymwneud â chyflog, llwyth gwaith arweinwyr ysgolion, cyllid ysgolion a darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ac maent wedi ymrwymo i ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn adeiladol drwy gydol y broses.

Yn dilyn ymgysylltiad adeiladol rhwng NAHT Cymru a Llywodraeth Cymru ar 30 Medi, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg wedi cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r egwyddor o sicrhau nad oes anfantais i gyflog ac amodau athrawon yng Nghymru, tra hefyd yn cydnabod y rhagolygon cyllidebol ansicr presennol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd wedi cadarnhau y bydd cytundebau cyflog aml-flwyddyn yn cael ei ystyried yn ffurfiol gan Lywodraeth Cymru, gan gydnabod cyd-destun amserlen Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU a chylch gwaith presennol Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ailddatgan ei hymrwymiad i ddod o hyd i ffordd ymlaen ar ariannu'r system ADY er budd ysgolion, awdurdodau lleol a dysgwyr. Mae'r partïon yn cytuno y dylai trafodaethau ystyried y pwysau presennol a chynaliadwyedd hirdymor y system.

Mae NAHT Cymru wedi croesawu'r cyfle i gymryd rhan mewn trafodaethau manwl gyda'r bwriad o sicrhau cynnydd ystyrlon ar dâl, llwyth gwaith, cyllid ysgolion a darpariaeth ADY. Mae'r undeb hefyd wedi cynnig cymryd rhan mewn trafodaethau manwl ar gyfleoedd ymarferol i leihau llwyth gwaith arweinwyr ysgolion, gan dynnu ar brofiadau aelodau ledled Cymru ac mewn mannau eraill yn y DU, ac mae wedi cynnig bod y gwaith hwn yn cyd-fynd â gwaith y Fforwm Partneriaeth Cyflog.

Mae'r partïon wedi cytuno i gychwyn rhaglen o drafodaethau dwys dros yr 14 diwrnod gwaith nesaf, dan arweiniad Penawdau Cytundeb . Bydd y Penawdau Cytundeb yn cael eu datblygu a'u cytuno gan y partïon a byddant yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer trafodaethau, gan gynnwys y materion allweddol i'w datrys, amcanion y broses, y canlyniadau arfaethedig, a'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu a

hwyluso. Mae'r partïon yn cydnabod rôl bwysig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn y trafodaethau hyn fel cynrychiolwyr cyflogwyr ledled Cymru.

Mae'r partïon yn cydnabod bod y pryderon sy'n sail i'r anghydfod yn hirsefydlog ac yn gofyn am weithredu ar unwaith ac atebion tymor hir os yw arweinyddiaeth ysgolion i barhau i fod yn gynaliadwy ledled Cymru.

Mae'r partïon yn cydnabod bod anghydfod NAHT Cymru yn cwmpasu pryderon sy'n ymwneud â chyflog a llwyth gwaith arweinwyr ysgolion, cyllid ysgolion ac ADY. Rydym yn cydnabod pryder penodol yr undeb am effaith pwysau cyflog a llwyth gwaith ar recriwtio a chadw, a lles arweinwyr ysgolion.

Mae'r partïon hefyd yn cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â'r prif bryderon sy'n wynebu arweinwyr ysgolion ar hyn o bryd a chynaliadwyedd tymor hirach arweinyddiaeth system addysg Cymru. Bydd trafodaethau felly yn canolbwyntio ar ddod o hyd i atebion ymarferol, y gellir eu cyflawni er mwyn gwneud gwir wahaniaeth i brofiad arweinwyr ysgolion ledled Cymru.

Mae pob parti yn ymgymryd â'r trafodaethau hyn yn ddidwyll ac wedi ymrwymo ar y cyd i archwilio a ellir dod i setliad drwy gytundeb. Cynhelir y trafodaethau hyn heb ragfarn i safbwynt unrhyw barti ac nid yw cymryd rhan ynddynt yn awgrymu cytundeb i unrhyw gynnig na chanlyniad penodol oni bai ac hyd nes y cytunir ar hynny'n ffurfiol.

Mae'r partïon yn cydnabod brys yr heriau sy'n wynebu arweinwyr ysgolion ac wedi ymrwymo i gynnal cyfarfodydd rheolaidd a bwrw ymlaen â'r trafodaethau ar fyrder drwy gydol y cyfnod negodi. Bydd diweddariad pellach ar gynnydd yn cael ei ddarparu maes o law.